# Cyngor gan y Gwasanaethau Anabledd ynghylch asesiadau cynhwysol

Os yw'r asesiadau wedi eu cynllunio i roi digon o amser i bob myfyriwr ddangos y deilliannau dysgu, ac i alluogi pob myfyriwr i ddangos eu gwybodaeth neu'u medrusrwydd i'r eithaf, yna ystyrir bod hynny'n arfer cynhwysol da a gallai olygu na fydd angen addasiadau ychwanegol ar gyfer y myfyrwyr
anabl

Bydd amser ychwanegol (os nad yw wedi'i gynnwys eisoes), dull cydlynol o amseru pob asesiad, cyfarwyddiadau clir a manwl (gan gynnwys cyfyngiadau o ran y geiriau a gwybodaeth am gyfeiriadau a chymorth technegol os oes angen) yn help mawr o ran cael gwared ar y rhwystrau i'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rhai sydd â Chynlluniau Cefnogi Dysgu Personol.

Teimlwn y dylai'r canlynol fod yn asesiad cynhwysol sy'n galluogi'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr i ddangos yr hyn maent wedi ei ddysgu ond, wrth gwrs, gall fod myfyrwyr unigol sydd angen addasiadau rhesymol ychwanegol, ac mae'r Cynghorwyr yn hapus i gynghori pe baech yn dymuno trafod sefyllfa unigol.

## Amrywiaeth eang o fformatau asesu

Dylai'r asesiadau amgen gynnwys ystod mor eang â phosibl o fformatau asesu (nid draethodau'n unig), yn yr un modd ag y mae aseiniadau modiwl yn ymgorffori amryw o ddulliau asesu h.y. cwestiynau aml-ddewis, atebion byr (gyda chyfyngiadau geiriau a marciau wedi'u dyrannu), a hyd yn oed cyflwyniadau Panopto. Byddai'n ddefnyddiol petai'r ysgolion yn **cynnig opsiwn o ofyn am asesiad amgen nad yw'n seiliedig ar draethodau** os yw amserlen arholiadau'r myfyriwr yn cynnwys gormod o asesiadau amgen sy'n seiliedig ar draethodau.

## Hygyrchedd

Dylai'r adnoddau fod yn hygyrch i bob myfyriwr. Mae'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) wedi cynhyrchuBwletin sy'n Canolbwyntio ar Ddysgu Cynhwysol sy'n cynnig arweiniad ynghylch creu deunyddiau e-ddysgu hygyrch. Cewch wybodaeth am Hygyrchedd ac E-Ddysgu hefyd ar eu tudalennau gwe.

## Dull cydlynol o amseru asesiadau

Rhoddir ystyriaeth i gydlynu'r asesiad i sicrhau nad yw'n gwrthdaro â'r holl asesiadau eraill a fydd gan y garfan.

## Amgylchiadau arbennig

Rhoi arweiniad ynghylch rhoi gwybod i'r Ysgol a ydyn nhw'n methu â chwblhau oherwydd salwch ac amgylchiadau lliniarol eraill ac yn y blaen gan gynnwys cyngor

ynglŷn â beth i'w wneud os na all y myfyriwr gwblhau'r arholiad ar-lein (defnyddiwch y Ganolfan Geisiadau i ofyn am sefyll arholiad am y tro cyntaf ac yn y blaen).

Dylid nodi hefyd ei bod yn anochel y bydd troi at ddysgu ar-lein yn creu annhegwch. Ni fydd gan bob myfyriwr le sy'n hwylus ar gyfer dysgu nac i arddangos eu dysg, er enghraifft, lle tawel lle na fydd neb yn tarfu am fwy nag awr.

## Addasiadau rhesymol

Os ydych chi'n gosod arholiad o bell, mae angen ystyried a chyfleu'r canlynol i'r myfyrwyr:

- A fydd y myfyrwyr yn cael eu marcio am sillafu a gramadeg? Sut bydd y system slipiau melyn yn gweithio?
- Os oes gan fyfyrwyr addasiadau yn y Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol ar ben yr amser ychwanegol / seibiannau gorffwys, dylid cynghori'r myfyrwyr i anfon e-bost at y tîm perthnasol o gynghorwyr, neu anfon e-bost at disabledservice@bangor.ac.uk

## Yr amserlen asesu

Dylai fod yn ddigonol at yr holl bethau posib a allai ddigwydd a'r rhwystrau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithio o bell (ymrwymiadau teuluol ac yn y blaen, dod o hyd i le tawel a mynediad at y rhyngrwyd, os yw'n bosib, safleoedd yn rhewi ac yn y blaen, a chaniatáu amser i gysylltu â TG os ydynt yn cael problemau technegol gartref).

## Cyfarwyddiadau clir a manwl, gan gynnwys nifer y geiriau a gwybodaeth sy'n ymwneud â chyfeiriadau.

Mae'n dda o beth rhoi syniad pa mor hir y disgwylir i'r dasg ei gymryd ynghyd â nifer y tudalennau / geiriau (mae hynny'n ddefnyddiol i fyfyrwyr sydd ar y sbectrwm awtistiaeth, tueddiadau o ran gorbryder/perffeithiaeth) gan egluro , er bod disgwyl i'r dasg gymryd dwy awr, mai bwriad y cyfnod estynedig yw caniatáu i'r holl fyfyrwyr orffen a goresgyn unrhyw fân anawsterau technegol ac yn y blaen.  Dyma rai arferion da a welsom yn yr ysgolion:

- Mae'r asesiad hwn am 48 awr ond o fewn yr amser hwnnw rydym hefyd yn disgwyl i chi fwyta, gorffwys, cysgu, hamddena, ymarfer corff fel arfer, ac yn y blaen.

Datganiad sy'n sicrhau'r myfyrwyr y bydd cadw at eu strategaethau adolygu arferol yn eu helpu o ran eistedd ac ysgrifennu oherwydd bydd ganddynt eu nodiadau adolygu'n gefn iddynt. Mae angen rhywfaint o wybodaeth arnynt hefyd ynglŷn â'r manylion sy'n ofynnol mewn perthynas â meini prawf cyfeirio.

Rydym hefyd o'r farn ei bod yn werth bwrw golwg dros rai o'r manylion ynghylch sut y bydd yr asesiad ar-lein yn gweithio; e.e. a all myfyrwyr weithio oddi ar-lein ac uwchlwytho eu hatebion? Gellid lleihau'n fawr y perygl o anawsterau technegol yn

effeithio ar yr asesiad a'r cyflwyniad (er ein bod yn deall y gallai fod pryderon ynghylch pwy wnaeth y gwaith a gyflwynwyd mewn gwirionedd). Os yw'n gyfres o gwestiynau ar y sgrin i weithio drwyddynt, a all y myfyriwr fynd yn ôl a newid ei atebion cyn eu cyflwyno'n derfynol?

## Cwestiynau Cyffredin

Dylid darparu Cwestiynau Cyffredin ynglŷn â sut mae mynd i'r afael â'r asesiad, er enghraifft, dylai arweiniad ar arholiad dwy awr a wneir o bell o fewn 24 awr gynnwys y canlynol:

- Adolygwch a pharatowch fel y byddech chi ar gyfer unrhyw arholiad arall.
- Penderfynwch pryd y byddwch chi'n rhoi'r gorau i weithio ar ddiwedd y dydd, er mwyn sicrhau eich bod chi'n gorffwys yn ddigonol.
- Peidiwch â chyflwyno'ch ateb ar y funud olaf un - rhag ofn y bydd anawsterau technegol ar adeg ei gyflwyno.
- Y disgwyl yw i'r arholiad barhau am ddim mwy na 2 awr mewn neuadd arholiad. Felly, dylech allu cwblhau'r aseiniad mewn 2 awr neu 2 awr ynghyd ag amser ychwanegol (os oes gennych Gynllun Cefnogi Dysgu Personol). Nid oes disgwyl i chi dreulio'r 24 awr i gyd ar yr aseiniad.
- Darparu meini prawf cyfeirio ar gyfer yr arholiad

## Cyngor ychwanegol gan Gynghorwyr

Mae'r Cynghorwyr yn barod iawn i drafod ymhellach, e-bost:

disabilityadviser@bangor.ac.uk
dyslexiaadviser@bangor.ac.uk
mentalhealthadviser@bangor.ac.uk

**Gwybodaeth bellach**

Asesu Cynhwysol: Canllawiau Arfer Da